# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 27 Chwefror 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Cynrychioli Anghenion Llawn Cymru

**C12 Janet Ryder:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch pwysigrwydd cynyddol sicrhau Cabinet y Cynulliad sydd yn cynrychioli anghenion llawn Cymru, yn gymdeithasol ac yn ddaearyddol? (OAQ9889)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid cynrychioli anghenion Cymru yw rôl y Cabinet ond mynd i'r afael â hwy. Y ffactor pwysicaf yw ei fod yn cynnwys y rheini a all wneud y gwaith hwnnw orau.

### Cyflawni Targedau Polisi

**C13 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y peirianwaith a'r adnoddau a ddefnyddir i sicrhau bod targedau polisi penodedig yn cael eu cyflawni? (OAQ9879) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Datblygu Polisïau o fewn y Cynulliad

**C14 David Lloyd:** Sut y bydd Prif Weinidog Cymru yn parhau i gadw cydbwysedd rhwng gofynion cynhwysiant cymdeithasol, polisi iechyd a datblygu economaidd yng Nghymru wrth ddatblygu polisïau'r Cynulliad? (OAQ9882) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Polisi'r Cynulliad ar Ehangu'r UE

**C15 Val Feld:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar hyd a lled polisi'r Cynulliad ar ehangu'r Undeb Ewropeaidd? (OAQ9873) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Y Berthynas rhwng Adrannau'r Cynulliad a San Steffan

**C16 Owen John Thomas:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad pellach ynghylch y berthynas rhwng adrannau'r Cynulliad Cenedlaethol a'r adrannau cyfatebol yn Llywodraeth San Steffan, a'r modd y gweithredir y concordatau rhwng y ddau sefydliad? (OAQ9857) [W]

**Prif Weinidog Cymru:** Mae fy nghydweithwyr a'm swyddogion yn ymdrechu'n gyson i feithrin perthnasau gwaith agos gyda'u cydweithwyr yn Whitehall. Mae'r concordatau a gytunodd y Cabinet ag adrannau Whitehall yn adlewyrchu'r egwyddorion sydd yn angenrheidiol i atgyfnerthu'r perthnasau hyn a'r arfer gweinyddol gorau y dylai swyddogion lynu ato.

### Agwedd Holl-gynhwysol tuag at Holl Faterion Polisi Cymru

**C17 Janet Davies:** Yn ei rôl fel cydlynydd datblygu polisïau, pa gamau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cymryd i sicrhau bod gan y Cynulliad agwedd holl-gynhwysol tuag at holl faterion polisi Cymru? (OAQ9877)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae fy nghyd-aelodau yn y Cabinet a minnau'n sicrhau y caiff ein prif themâu a'n blaenoriaethau pennaf eu hintegreiddio'n gywir. Mae tair thema drosfwaol y Cynulliad—datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol—yn golygu bod yn rhaid ystyried cynlluniau a

gweithredoedd mewn cyd-destun ehangach ym mhob un o'n meysydd polisi a bod yn rhaid iddynt gefnogi ei gilydd.

### Cyfarfodydd â Corus

**C18 David Davies:** Pa gyfarfodydd y mae Prif Weinidog Cymru wedi eu cael gyda Corus i drafod effaith unrhyw ddiswyddiadau yn ei weithfeydd ar y cymunedau yng Nghymru? (OAQ9856)

**Prif Weinidog Cymru:** Wedi i Corus gydnabod bod angen gweithio'n agos gyda'r undebau a'r Llywodraeth yma ac yn Whitehall, nid dyma'r adeg i drafod diswyddiadau gan fod yn rhaid rhoi'r pwyslais ar gynnal gallu ein diwydiant dur a chadw swyddi. Mae pawb yn y Cabinet sydd yn ymwneud yn fwyaf uniongyrchol â hyn yn mynd ati fel lladd nadroedd gyda Corus, yr undebau ac adrannau Whitehall er mwyn cadw swyddi.

### Rhaglen Fusnes Flynyddol y Llywodraeth

**C19 David Melding:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar yr hyn a wneir i gyflawni'r amcanion a nodwyd yn rhaglen fusnes flynyddol y Llywodraeth a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 21 Tachwedd 2000? (OAQ9875) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Dyfodol Cynulliad i Gymru a chanddo'r Grym i Basio Deddfwriaeth Sylfaenol

**C20 Brian Hancock:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y trafodaethau y mae ef ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi eu cael ynghylch cael Cynulliad i Gymru yn y dyfodol a fydd â'r grym i basio deddfwriaeth sylfaenol? (OAQ9886)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn trafod pob agwedd o'r cytundeb datganoli yn gyson gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

### Hyrwyddo Delwedd Cymru

**C21 Jonathan Morgan:** Pa gamau y mae gweinyddiaeth Prif Weinidog Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo delwedd Cymru? (OAQ9892) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Goblygiadau Posibl yr Ewro i Gymru

**C22 Christine Gwyther:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi eu cael gyda'i gyd-Weinidogion yn San Steffan ynghylch goblygiadau posibl yr ewro i Gymru pan ddaw yn llawn weithredol yn 2001? (OAQ9858) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Rôl Prif Weinidog Cymru fel Cydlynydd Datblygu Polisïau

**C23 Richard Edwards:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ei rôl fel cydlynydd datblygu polisïau? (OAQ9859) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Trafodaethau â Corus

**C24 John Griffiths:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda Corus am effaith ei benderfyniad i gwtogi ar y cynhyrchu yn ei weithfeydd ar gymunedau Cymreig? (OAQ9894)

**Prif Weinidog Cymru:** Wedi i Corus gydnabod bod angen gweithio'n agos gyda'r undebau a'r Llywodraeth yma ac yn Whitehall, mae'n rhaid rhoi'r pwyslais ar gynnal gallu ein diwydiant dur a chadw swyddi. Mae pawb yn y Cabinet sydd yn ymwneud yn fwyaf uniongyrchol â hyn yn mynd ati fel lladd nadroedd gyda Corus, yr undebau ac adrannau Whitehall er mwyn cadw swyddi. Yn hyn o beth, gallaf gadarnhau imi gynnal cyfarfodydd gyda Corus er mwyn ceisio darganfod ffordd ymlaen.

### Trafodaethau rhwng y Cynulliad a’r Cyngor Partneriaeth Busnes

**C25 Phil Williams:** A all Prif Weinidog Cymru wneud datganiad ar drafodaethau diweddar a fu rhwng y Cynulliad a’r Cyngor Partneriaeth Busnes yn ymwneud â chodi’r isafswm tâl? (OAQ9880)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid yw’r Cyngor Partneriaeth Busnes wedi cynnal unrhyw drafodaethau ynghylch lefelau isafswm tâl.

### Mynd i’r Afael ag Anghenion Grwpiau Cymdeithasol yng Nghymru

**C26 Elin Jones:** A all Prif Weinidog Cymru wneud datganiad ar yr hyn y mae’r Cynulliad yn ei wneud i fynd i’r afael ag anghenion pob grŵp cymdeithasol yng Nghymru? (OAQ9887)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi dull gweithredu cyfranogol o ran llunio polisïau arloesol sydd yn ymateb i anghenion pob grŵp cymdeithasol yng Nghymru. Drwy roi sylw i’r anghenion hyn yr ydym wedi ymrwymo i ymgynghori a chymryd rhan fel a amlinellir yn yr adroddiad ‘Engaging Wales’, a drafodwyd yn ddiweddar yn y Siambr hon.

Mae nifer o arfau ymarferol yn cael eu datblygu er mwyn galluogi rhagor o fudiadau ac unigolion i gymryd rhan o ran llunio polisïau sydd yn bodloni anghenion a ddynodwyd.